# CALON LÂN

*John Hughes a John Stoddart*

## YNGLŶN Â'R GÂN HON

**Mae'r emyn dôn Gymreig yma'n cael ei chysylltu'n aml gyda Rygbi'r Undeb yng Nghymru, gan y'i cenir cyn bron pob un gêm brawf a chwareir gan y tîm cenedlaethol.**

**THEMÂU/TESTUNAU**

Rygbi/emyn/crefydd

**CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL CWRICWLWM**

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
Y Dyniaethau

## YSTYRIAETHAU SY'N BENODOL I'R DISBYBLAETH

**Cwmpas Lleisiol**

10fed

**Ffurf Lleisiol**

Unsain/rhannau annibynnol

**Elfennau Cerddorol**


Cyflymdra a thonyddiaeth

**Nodweddion Cerddorol**

Tempo araf, llinell yr alaw yn symud gan fwyaf fesul cam gydag ambell naid yn seiliedig ar y cordiau

## Ymarferion Cynhesu

- Gofynnwch i'r dysgwyr sefyll wedi ymlacio gyda'u traed ychydig ar led. Dylent ymestyn mor dal â phosib ond heb godi unrhyw ran o'u traed oddiar y llawr; yna codi'u breichiau yn raddol ymlaen acuwch eu pennau mor uchel ag y medrant. Dylai'r dysgwyr ailadrodd yr ymarferiad, ond yn sefyll y tro hwn ar flaenau'u traed ac yn ymestyn hyd yn oed yn uwch.
- Dylai'r dysgwyr geisio dweud 'rowliodd Lowri i lawr yr allt' bedair gwaith mor gyflym ag sy'n bosib. Dylid wedyn canu'r geiriau ar raddfa C Fwyaf (CDEFGABC1), y tro cyntaf yn canu'r frawddeg gyfan ar un nodyn, gan ganolbwyntio ar ynganu clir a'r defnydd cywir o donyddiaeth.
- Gofynnwch i'r dysgwyr symud cyhyrau eu stumog i mewn ac allan heb anadlu. (Mae hyn yn eu gwneud yn ymwybodol iawn o'r symudiad sydd ei angen wrth iddynt anadlu.) Gofynnwch i'r dysgwyr anadlu i mewn am bedwar curiad gan deimlo'r asennau'n ymestyn allan, ac allan am bedwar curiad gan gadw'r asennau'n gadarn mor hir â phosib.
- Dangoswch y rhythm nodweddiadol:




## Awgrymiadau o gysyltiadau allweddol i'r Meysydd eraill, themâu trawgwricwlaidd a/neu chyd-destynau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol:

- Darganfyddwch y stori am sut cafodd yr emyn ei gyfansoddi: https://www.walesonline.co.uk/news/story-wales-beloved-calon-ln-16107097
- Gwrandewch ar ystod o emynau o Gymru a gwledydd gwahanol.
- Ystyriwch eu gwreiddiau – pam eu bod mor bwysig?
- Cymharwch y geiriau – beth yw eu hystyr?
- Dysgwch emynau gwahanol o wledydd eraill yn eu hieithoedd gwreiddiol.

© CanSing Cymru 2022

**GRADDFA: HERIOL**

# CALON LÂN

*John Hughes a John Stoddart*

Cân Sing

## Addysgu a Dysgu

1 Gyda'r dysgwyr gwrandewch ar bennill cyntaf y recordiad. Wedi gwrando unwaith, gofynnwch i'r dysgwyr wrando unwaith drachefn, yn ymuno y tro hwn drwy glapio'r rhythm.

2 Rhannwch y grŵp yn ddau grŵp cyfartal. Rhowch yr alaw i un grŵp (Rhan 1 – 'Coch') a'r harmoni i'r llall (Rhan 2 – 'Porffor').

3 Ceisiwch weithio drwy'r pennill gan gyflwyno'r ddwy ran yn gydamserol. Cyflwynwch pob brawddeg fesul un. Os ydych yn defnyddio'r sgrîn rhyngweithiol neu ffeiliau Mp3, mae modd gwrando ar Rannau 1 a 2 ar wahân.

4 Sicrhewch bod y dysgwyr yn dilyn eu rhan dewisol yn gywir a'u bod yn canolbwyntio ar y pwynt ymuno sydd ar guriad gwan.

5 Os bydd un grwˆ p yn cael trafferth gyda brawddeg benodol, gofynnwch i'r dysgwyr wrando arnoch chi neu ar y trac cyn ymuno. Wedi iddynt ddod yn gyfarwydd ac yn hyderus â'u rhan, dangoswch iddynt fannau addas i anadlu ac ymarferwch y ddwy ran yn gydamserol.

6 Hwyrach y gwelwch bod dysgu'r pennill yn ddigon o gynnydd am un sesiwn ac y byddwch yn penderfynu taclo'r cytgan yn y sesiwn dilynol.

7 Pan bydd y dysgwyr yn medru cynnal eu rhannau, symudwch ymlaen at y cytgan. Sicrhewch bod y dysgwyr yn dilyn eu rhan yn gywir a chanolbwyntiwch ar y naid sy'n digwydd yn y ddwy ran ar gychwyn y cytgan.

8 Wedi i chi ymarfer y pennill a'r cytgan yn drwyadl, rhowch gynnig ar berformiad dwyran gyda chymorth y recordiad.

## Sgiliau Cyfannol

- Perfformiwch y gân gyfan (tri phennill) yn ddeuran. Efallai cewch gymorth wrth daro'r curiad ar offeryn taro di-draw. Dylai'r dysgwyr ganolbwyntio ar eu cywirdeb rhythmig a'u tonyddiaeth. Mae'r recordiad llawn a'r sgôr mewn harmoni pedair rhan. Fe allai'r rhan fas fod yn addas i fechgyn sydd a'u lleisiau wedi torri. Gyda chefnogaeth dysgwyr aeddfetach neu oedolion, rhowch gynnig ar yr emyn mewn harmoni pedair rhan.

- Anogwch y dysgwyr i berfformio drwy ynganu'n eglur a chydag emosiwn ac angerdd ar eiriau penodol. Anogwch ddysgwyr i anadlu fesul dwy frawddeg, a chanolbwyntiwch ar ganu ar hyd y seiniau llafariaid hir.

© CanSing Cymru 2022

**GRADDFA: HERIOL**

# CALON LÂN

*John Hughes a John Stoddart*

## Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:

*•Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfydig a chreadigol•*
*•Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a'r dychymyg•*

- Gofynnwch i'r dysgwyr berfformio'r alaw ar offeryn, ac i adnabod y symudiadau naid a cham. Rhowch gynnig ar berfformio'r gân gyda hanner y grŵp yn canu a'r hanner arall yn chwarae, ac i'r gwrthwyneb wedyn.

- Gyda phartner, gall y dysgwyr ddefnyddio rhythm a geiriau'r cytgan i gyfansoddi alaw newydd yn defnyddio graddfa G Fwyaf (GABCDEFG1). Dylai'r alaw gynnwys nodau sy'n symud fesul cam ac ambell i naid. Dylai pob partner berfformio hyn o flaen y grŵp naill ai drwy ganu neu wrth ganu offeryn.

## Asesu ar gyfer Dysgu:

*•Mae ymateb a myfyrio, fel artist, ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol•*

### Holi

**Adnodd: Meddwl-paru-rhannu**
- Enwch ragor o emynau neu ganeuon crefyddol rydych yn eu hadnabod? Oes gan Calon Lân rywbeth sy'n gyffredin â'r caneuon hyn?
- Ydy naws yr emyn yn drist neu'n hapus? Eglurwch eich ateb.
- Sut mae modd gwella'n perfformiad? Cofiwch ystyried yr elfennau cerddorol.

### Adborth

**Adnodd: Sut i wella**
Drwy osod targedau, dangoswch i'r dysgwyr sut i wella. Targed addas i rai fyddai gallu ymuno ar y curiadau gwan yn hyderus yn y pennill a'r cytgan, neu i ganu'r gân gydag arddeliad. I eraill, efallai mai canolbwyntio ar gywirdeb yn eu tonyddiaeth ar nodau uchel y cytgan fyddai'r nod.

Arddangoswch i'r dysgwyr drwy ganu eich hun neu drwy chwarae y recordiad. Wedi rhoi amser i'r dysgwyr wella, sicrhewch bod targedau wedi'u cyflawni.

### Hunanesesiad / Asesiad gan gyfoedion

**Adnodd: Her Post-it**
Fesul pâr, dylai'r dysgwyr drafod y ddau gwestiwn dilynol a gwerthuso'r dysgu:
- Sut dysgon ni'r gân?
- Beth oedd y pethau y ces i'n anodd neu hawdd wrthyn ddysgu'r gân?

Dylid ysgrifennu'u sylwadau ar nodiadau 'post-it' cyn eu rhannu gyda gweddill y grŵp.

© CanSing Cymru 2022